# Bwletin y Farchnad HCC

Mai 2023

**"Yn dilyn rhyddhau tueddiadau bwyta cig oen gan Kantar, mae data'n dangos bod defnyddwyr wedi glynu at draddodiad a sbwylio eu hunain i ddarnau rhost y Pasg hwn. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y tueddiadau siopa Pasg hyn yn fanylach, ac yn edrych ar sut mae Cig Oen yn perfformio ym maes manwerthu hyd yma yn 2023."**

**Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Gwybodaeth, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**




Er bod chwyddiant yn parhau i fod ar ei uchaf erioed o 17.3%, roedd siopwyr yn dal am fwynhau'r Pasg hwn wrth i Kantar - arbenigwyr y panel defnyddwyr - adrodd bod gwerthiant gwerth bwyd wedi codi uwchlaw'r marc o £8 biliwn am y tro cyntaf. Nid yw'n syndod bod y prisiau cyfartalog uwch oherwydd chwyddiant wedi ysgogi'r cynnydd hwn mewn gwerth. Cododd pris cyfartalog y pecyn o 12.9% yn ystod y cyfnod o 3 wythnos a ddaeth i ben ar 9 Ebrill o'i gymharu â'r Pasg 2022. Fe wnaeth yr holl broteinau yn y farchnad groser brofi cynnydd yn y gwerth cyfartalog, fodd bynnag, cofnododd y categori Cig Oen yn benodol dwf o flwyddyn i flwyddyn.

## CIG OEN YN Y PASG

Mae ffigyrau gafodd eu rhyddhau gan Kantar ar gyfer cyfnod y Pasg yn 2023 yn awgrymu bod siopwyr yn parhau i ddilyn traddodiad er gwaethaf yr argyfwng costau byw presennol, ac fe wnaethant brynu o'r categori Cig Oen yn y sector manwerthu. Roedd darnau Rhostio Cig Oen Ffres yn arbennig yn ffefryn cadarn ac yn profi cynnydd sylweddol yn nifer y prynwyr.

Yn ogystal, newidiodd llawer o siopwyr o broteinau eraill i Gig Oen y Pasg hwn (gan gynnwys i ffwrdd o gyw iâr), yn lle'r proteinau rhatach fel y maen nhw wedi bod yn ei wneud o'r blaen. Roedd siopwyr a oedd wedi ymddeol neu heb blant gartref yn cyfrannu at fwy na hanner y twf a welwyd yn y categori Cig Oen, sy'n tynnu sylw at y ffaith bod cig oen yn parhau i fod yn ffefryn gyda'r categori hŷn o siopwr.




**Perfformiad Darnau Rhostio Cig Oen Ffres yn sector Manwerthu Prydain**

*2 wythnos yn gorffen 9fed Ebrill 2023*
*Ffynhonnell: Kantar*


## CIG OEN HYD YN HYN YN 2023

O edrych ar berfformiad cig oen ym maes manwerthu ym Mhrydain yn ystod y flwyddyn hyd yma (hyd at wythnos yn gorffen16 Ebrill 2023); mae cyfanswm y gwariant i fyny bron i 6% ar lefelau blwyddyn ynghynt, sef £211 miliwn. Nid yw'n syndod gweld hyn gan fod chwyddiant wedi achosi i bris cyfartalog cig oen gynyddu tua 5% ar y flwyddyn i tua £12.07 y kg. Er gwaetha'r cynnydd yn y pris, mae cyfanswm cyfaint y cig oen sy'n cael ei werthu yn sefydlog ar y cyfnod cyfatebol y llynedd - ac yn wir rhyw 0.3% yn uwch. Mae hyn o ganlyniad i Basg cryf i gig oen eleni wrth i siopwyr lynu at draddodiad a dewis sbwylio eu hunain er gwaethaf yr argyfwng costau byw parhaus.

Yn dilyn perfformiad cryf darnau i'w rhostio yn ystod cyfnod y Pasg, mae darnau rhostio coes cig oen yn benodol wedi profi cynnydd nodedig yn nifer y prynwyr (cynnydd o bron i 18% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd). Roedd gan lawer o fanwerthwyr hyrwyddiadau ar gyfer cig oen eleni, a byddai hyn wedi denu prynwyr newydd i'r categori. O ganlyniad, mae nifer y darnau rhostio coes cig oen a werthwyd hyd yma eleni i fyny rhyw 13% ar lefelau blwyddyn ynghynt, ac ar hyn o bryd mae'n cyfrif am bron i hanner cyfaint y cig oen a werthwyd hyd yma yn 2023 ym maes manwerthu.

**Perfformiad Darnau Cig Oen ym maes Manwerthu ym Mhrydain**

*(termau cyfaint, blwyddyn i 16eg Ebrill 2023)*




Wrth edrych ymlaen, mae'r tywydd yn gwella a bydd defnyddwyr yn chwilio am brotein i'w roi ar eu barbeciws - ac er i chwyddiant prisiau groser ostwng rhywfaint am yr ail fis yn olynol i 17.2% am y 4 wythnos hyd at 14 Mai, mae hyn yn parhau i fod ar lefel uchel a bydd yn parhau i effeithio ar benderfyniadau siopwyr.

# Crynodeb Misol y Farchnad

### GWARTHEG

**Prisiau – yr wythnos yn dod i ben 20 Mai**

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **274.5c/kg**. Roedd hyn:

- + 2.7c ar yr wythnos flaenorol,
- + 33.1c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 79.4c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 195.1c/kg).


Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **489.9c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.4c ar yr wythnos flaenorol,
- 51.7c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.


Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 487.1c/kg (+ 1.5c ar yr wythnos), teirw ifanc yn 480.4c kg (-4.8c), a gwartheg difa yn 385.3c/kg (+5.2c).

**Trwybwn – Ebrill 2023**

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 212,900 pen – gostyngiad o 6% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 160,800 pen - i lawr 6% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych -8%, heffrod -4%, a theirw ifanc -6%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 344.3kg (-5.6kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 44,300 pen - i lawr 4% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU
Ebrill '23
69,800 tunnell
-7% b-a-f



### DEFAID

**Prisiau – yr wythnos yn dod i ben 20 Mai**

Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd arwerthu yng Nghymru oedd **310.2c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.9c ar yr wythnos flaenorol,
- + 16.5c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 41.7c uwchlaw'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 268.5c/kg).


Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£94.70/pen**. Roedd hyn:

- + £1.00 ar yr wythnos flaenorol,
- £3.20 o dan lefelau blwyddyn yn gynharach.

Prisiau ŵyn pwysau marw Prydain fawr ar gyfartaledd oedd 742.9c/kg (+71.4c ar yr wythnos).

**Trwybwn – Ebrill 2023**


- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – i lawr 9% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 947,900 pen – i lawr 9% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcasau ŵyn cyfartalog = 20.5kg (-0.5kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 124,900 pen – i lawr 8% ar y flwyddyn.




*Prisiau hen dymor/tymor newydd cyfunol hyd at 3ydd wythnos mis Mai, prisiau tymor newydd yn unig tan Ragfyr*

*Ffynhonnell: AHDB, LAA IAAS*

Cynhyrchiant cig defaid y DU
Ebrill '23
21,900 tunnell
-15% b-a-f



### MOCH

**Prisiau – yr wythnos yn gorffen 13 Mai**


Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **220.3c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.3c ar yr wythnos flaenorol,
- + 40.3c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 61.1c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 159.3c/kg).

**Trwybwn – Ebrill 2023**

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 783,300 pen – gostyngiad o 19% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 765,400 pen – i lawr 19% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 89.4kg (-1.5kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 17,800 pen – i lawr 23% ar y flwyddyn.

.




Cynhyrchiant porc y DU
Ebrill '23
70,900 tunnell
-20% b-a-f

